Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

grantiau a trwyddedau
grants and licences

COETIROEDD GWELL I GYMRU
BETTER WOODLANDS FOR WALES

CYLCHLYTHYR **Rhifyn 4 Hydref 2006**

Y tymor plannu cyntaf o dan CGG fydd 2007/08

Nodyn Y Golygydd

Yn y rhifyn hwn fe ddown â'r diweddaraf am y Gyfrifiannell Costio GGC, y Grwpiau Rhanddeiliaid a Thechnegol, ac mi edrychwn ar yr amserlen ar gyfer plannu newydd o dan CGG. Rydym hefyd yn trafod taliadau cyfuna a thor-cysylltiad ac yn ail-gadarnhau'r sefyllfa gyda cheisiadau presennol o dan y Cynllun Grantiau Coetiroedd.

Byddem hefyd yn croesawu eich sylwadau neu eich adborth ynglŷn â'r cylchlythyr hwn. Os oes gennych unrhyw beth yr hoffech i ni ymdrin ag ef neu efallai y credwch y gallwn ei wella, defnyddiwch y cyfeiriad e-bost a roddir isod ar gyfer Sam Davies.

Amserlen ar gyfer plannu newydd o dan CGG

Yn y cylchlythyr diwethaf esboniwyd bod yna strwythur grantiau newydd wedi ei ddatblygu a'n bod yn gobeithio y gallwn gyhoeddi cymeradwyaeth yr UE ar ei gyfer yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Mae'r oedi hwn a'r ansicrwydd ynghylch y ffordd y bydd y Wobr Tir Wedi'i Wella (y grantiau olynol i'r Cynllun Gwobr Coetir Fferm) yn cael eu gweinyddu yn golygu na allwn amseru datblygiad y sgriniau grantiau plannu newydd o fewn y system TG hyd fis Mawrth 2007 ar y cynharaf.

Y tymor plannu cyntaf y byddwch yn gallu defnyddio grantiau plannu newydd y CGG felly fydd 2007/8. Os ydych wedi creu unrhyw geisiadau CGG sydd ar gyfer plannu newydd yn unig, neu ni fyddwch yn gallu gorffen y cynllun gweithrediadau a'r cais am grant nes i'r elfennau plannu newydd gael eu datblygu.

C. Beth wyf yn ei wneud os oes gennyf gais CGG sy'n cynnwys coetir presennol a phlannu newydd ac yn dymuno mynd ymlaen â rheoli'r coetir presennol?

A. Gallwch ddewis parhau i gynllunio ar gyfer y coetir newydd yn eich cynllun rheoli, (h.y. eu cynnwys yn ardal eich cais, eich amcanion ac mewn unrhyw ymgynghoriad) ond hepgor y gweithrediadau plannu o'ch Cynllun Gweithrediadau.

Byddwn yn cymeradwyo'r cynllun a rhoi cytundeb grant heb y grantiau plannu newydd. Fodd bynnag, cyn gynted ag y mae'r sgriniau Plannu Newydd ar gael, byddwch yn gallu cyflwyno newid i'r Cynllun Gweithrediadau heb orfod newid y Cynllun Rheoli na chynnal ymgynghoriad pellach.

Mae Rhif Cyfeirnod Cwsmer (RhCC) yn hanfodol er mwyn cael cymeradwyaeth CGG

Mae'r Cyfrifiannell Costau GGC ar gael nawr - Am gopi ymwelwch â gwefan CC ar www.forestry.gov.uk

Newidiadau i weinyddu grantiau

Fe grybwyllwyd mewn cylchlythyr cynharach bod rhaid i rai newidiadau gweinyddol ddigwydd o ganlyniad i reolau newydd sy'n rheoli Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013. Rydym wedi bod yn gweithio gydag Isadran Taliadau Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn lleihau ei effaith ar y sector coedwigaeth. Fodd bynnag, fe fydd yna ychydig o newidiadau a'r cyntaf o'r rhain yw'r gofyniad i fuddiolwyr grantiau gael Rhif Cyfeirnod Cwsmer (RhCC)unigryw neu RhCC.

Cyn y gallwn gymeradwyo cynlluniau rheoli CGG a rhoi cytundebau grant, rhaid i ni gael RhCC ar gyfer yr ymgeisydd. Bydd y RhCC hwn wedi ei gysylltu â set o fanylion y taledig y bydd yr holl daliadau grant yn cael eu gwneud.

Rydym wedi paratoi llythyr safonol ar gyfer ymgeiswyr CGG sy'n esbonio'r gofyniad hwn ac rydym wedi cael sylwadau gan gyrff cynrychioladol. O ganlyniad i'r sylwadau a dderbyniwyd, ni fyddwn yn anfon hwn yn uniongyrchol at yr ymgeiswyr ond byddwn yn gadael i'r Cynllunwyr Rheoli gysylltu â'r ymgeisydd. Atodir copi o'r llythyr safonol dwy dudalen fel y gallwch naill ai ei argraffu neu ei e-bostio at eich cleientiaid CGG neu ei ddefnyddio fel sail i esbonio'r angen am RhCC.

Mae'r broses gofrestru wedi ei chyfeirio tuag at ffermwyr. Er mwyn canfod a yw'n drysu neu'n creu problemau i berchnogion coetir, rydym yn ei dreialu gyda chymorth asiantau sydd ag amrywiaeth o gleientiaid gwahanol. Os oes angen am fwy o arweiniad, byddwn yn ei anfon atoch drwy'r e-bost fel y gallwch gynghori eich cleientiaid.

Rydym yn deall bod y galw am RhCC hefyd yn berthnasol i ddalwyr contract CGG. Fodd bynnag, mae hyn yn fater mwy cymhleth ac mae'n cynhyrchu mwy o drafodaethau â'r Cynulliad. Wedi i ni ddeall yn glir, byddwn yn ysgrifennu atoch eto er mwyn esbonio sut y byddwn yn mynd ymlaen.

Taliadau Cyfuno a Thor-Cysylltiad

Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn talu TAW ar Daliadau Cyfuno a Thor-Cysylltiad.

Lasio Cyfrifiannell Costau GGC

Mae cyfrifiannell newydd CGG yn awr ar gael ar wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Dylid ei defnyddio ar gyfer holl geisiadau CGG. Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cynnig hyfforddiant yn ystod mis Tachwedd ar sut i gael y gorau allan o Gyfrifiannell GGC. Rhoddir gwahoddiad i holl Gynllunwyr Rheolaeth i fynychu'r sesiynau hyfforddi hyn. Yn dilyn y sesiynau bydd cyfle i Gynllunwyr drafod materion eraill CGG gyda staff CCC.

Dyddiadau: 14 a 29 Tachwedd – canolbarth Cymru
21 Tachwedd – gogledd Cymru (Clawddnewydd)
22 Tachwedd – de Cymru (Llanymddyfri)

Grwpiau Rhanddeiliaid a Thechnegol CGG

Cyn bo hir bydd CCC yn gwahodd sefydliadau ac unigolion i ymuno â dau grŵp newydd.

Bydd gan **Grŵp Rhanddeiliaid** CGG gynrychiolwyr o ddiwydiant, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, ynghyd â staff CCC. Pwrpas y grŵp yw galluogi CCC i ddarparu adroddiadau cynnydd y CGG i grwpiau rhanddeiliaid, canfod eu barn ar faterion allweddol a rhoi cyfle iddynt ofyn cwestiynau ynglŷn â CGG neu godi pryderon. Bydd y grŵp yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Bydd CCC yn anfon gwahoddiadau at y Grŵp Rhanddeiliaid.

Y dyddiad cau am gymeradwyaeth CGC yw 31ain Rhagfyr 2006

Check you're not missing anything with our 'Dates to remember' section across page

Bydd y **Grŵp Technegol** yn cynnwys Cynllunwyr Rheolaeth a staff CCC. Pwrpas y grŵp hwn fydd galluogi'r rhai hynny sydd yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno CGG i adnabod tagfeydd a phroblemau technegol ac i gael atebion er mwyn eu datrys. Gall yr atebion amrywio o ddatblygu arweiniad, adnabod anghenion hyfforddi neu bennu gwelliannau ar gyfer systemau TG. Gall aelodau o'r grŵp gael y gorchwyl o ymgymryd â'r gwaith o ddatrys problemau. Bydd y grŵp yn delio â materion sy'n effeithio ar fesuriadau allweddol perfformiad o fewn CGG fel amserau prosesu, nifer y Cynlluniau Sylfaenol a Rheolaeth sy'n cael eu cymeradwyo neu eu tynnu yn ôl, digideiddio mapiau a chynnig gwybodaeth o ffynonellau gwybodaeth. Bydd newidiadau i strwythur a chyfraddau grantiau y tu hwnt i gylch gwaith y grŵp. Bydd CCC yn ysgrifennu at yr holl Gynllunwyr Rheolaeth yn gynnar ym mis Tachwedd yn eu gwahodd i fynegi eu diddordeb mewn ymuno â'r Grŵp Technegol. Bydd CCC yn dewis aelodau o blith y rheiny a fynegodd ddiddordeb. Bydd y grŵp yn cyfarfod bob deufis a bydd yr aelodaeth yn newid bob blwyddyn. Peidiwch â mynegi eich diddordeb ar hyn o bryd.

Dyddiad cau Cymeradwyaeth Cynllun Grantiau Coetiroedd – 31 Rhagfyr 2006

Mae'r caniatâd a roddwyd i CCC o dan y Cynllun Datblygu Gwledig i weinyddu'r hen Gynllun Grantiau Coetiroedd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2006. Mae hyn yn golygu na all CCC gymeradwyo cynlluniau ar ôl y dyddiad hwn ni waeth pryd bynnag y'u cyflwynwyd. Bydd llawer ohonoch wedi cyflwyno cynlluniau cyn y dyddiad cau ar 31 Awst (ar gyfer cyflwyno cynlluniau newydd) ac mae CCC wedi sicrhau bod Swyddog Coetir ychwanegol ar gael i brosesu'r cynlluniau hyn yn gyflym. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd rhai o'r cynlluniau wedi eu prosesu mewn pryd ar gyfer y dyddiad cau ar 31 Rhagfyr a bydd rhaid i CCC gau'r rhai hyn yn awtomatig. Rydym wedi rhoi blaenoriaeth i gynlluniau plannu newydd a cheisiadau wedi eu cyflwyno'n dda sy'n rhoi'r holl wybodaeth berthnasol er mwyn hwyluso prosesu cyflym. Mae rhai o'r ceisiadau yn cynnwys gwybodaeth fratiog neu waith na ellir ei wneud yn synhwyrol o fewn y cyfnod cais sy'n gorffen ar 31 Mawrth 2007 (e.e. rheoli gwiwerod). Bydd Swyddogion Coetiroedd yn ei chael hi'n anodd i gymeradwyo'r rhain mewn da bryd ac efallai y byddant yn gwrthod y cais. Cydweithiwch gyda'r Swyddogion Coetiroedd i gymeradwyo'r cynlluniau hyn mewn da bryd. Bydd CCC yn parhau i dderbyn newidiadau i gynlluniau a gymeradwywyd yn barod ar ôl y dyddiad cau.

Nodiadau Allweddol

Rhaid i holl fuddiolwyr grantiau gael Rhif Cyfeirnod Cwsmer – ni chymeradwyir ceisiadau CGG heb un. Gellir anfon y llythyr atodedig drwy'r e-bost neu ei anfon at y perchnogion drwy eu cynlluniwr rheoli i esbonio'r angen am RhCC.

Dyddiadau i'w Cofio

- Oherwydd gohiriadau cymeradwyo grantiau plannu newydd yr UE 2007/08 fydd y tymor plannu cyntaf o dan CGG.
- Y dyddiad cau terfynol ar gyfer cymeradwyo ceisiadau CGG yw 31 Rhagfyr 2006
- Dyma'r dyddiadau ar gyfer Hyfforddiant ar Gyfrifiannell Costio GGC (fe gewch wahoddiad i fynychu):
  - 14 a 29 Tachwedd – canolbarth Cymru
  - 21 Tachwedd – gogledd Cymru (Clawddnewydd)
  - 22 Tachwedd – de Cymru (Llanymddyfri)

Manylion Cyswllt

- Ymholiadau cyffredinol am CGG: Ffôn 0845 604 0845 neu ewch i'r wefan ar www.forestry.gov.uk
- Ymholiadau technegol: E-bost bww.ts@forestry.gov.uk
- Awgrymiadau am rifynnau yn y dyfodol:E-bost Sam.davies@forestry.gsi.gov.uk
- Ymholiadau am y Gyfrifiannell Gostio GGC:E-bost wig.costings@forestry.gsi.gov.uk

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales